Prosiect Gwirionedd - testun ar gyfer gwefannau

Mae'r Prosiect Gwirionedd yn cynnig i ddioddefwyr a goroeswyr y cyfle i rannu eu profiadau mewn lleoliad preifat a chefnogol.

Mae'n rhan o'r Ymchwiliad Annibynnol i Gam-drin Plant yn Rhywiol, a sefydlwyd er mwyn ymchwilio i sut y gallai sefydliadau yng Nghymru a Lloegr fod wedi methu diogelu plant rhag cam-drin rhywiol.

Mae'r Prosiect Gwirionedd yn anelu i roi llais i ddioddefwyr a goroeswyr o gam-drin plant yn rhywiol, sawl ohonynt wedi eu tawelu yn y gorffennol. Gallant hefyd gwneud awgrymiadau ynglŷn â sut i atal cam-drin yn y dyfodol.

Mae'r Prosiect Gwirionedd yn rhan hanfodol o waith yr Ymchwiliad; bydd clywed wrth ddioddefwyr a goroeswyr yn helpu'r Ymchwiliad i ddeall natur a graddfa cam-drin plant yn rhywiol a chlywed eu hawgrymiadau am newid.

Cynlluniwyd y Prosiect Gwirionedd mewn ymgynghoriad â dioddefwyr a goroeswyr ac mae eu hanghenion a'u dymuniadau yn cymryd blaenoriaeth. Gallant dderbyn cefnogaeth emosiynol cyn, yn ystod ac ar ôl eu sesiwn. Gallant rannu cymaint neu cyn lleied ag y dymunant ac ni fydd yr hyn a rhennir yn cael ei herio.

Hoffai'r Ymchwiliad clywed wrth gymaint o bobl ag sy'n bosib. Er mwyn cysylltu â'r Prosiect Gwirionedd, ewch i'n gwefan www.truthproject.org.uk neu galwch ein llinell wybodaeth: 0800 917 1000, sydd ar agor o ddydd Llun i ddydd Gwener 8yb-8yh a dydd Sadwrn o 10yb-10yh.